| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **22 MAI 2008** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd** |
| **GWEITHREDIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor a Chadarnhau Dyraniad Swyddi ac Oriau'r Cynorthwywyr Gwleidyddol.** |

---

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol gan ei fod yn rheidrwydd gwneud hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Ar yr adeg hynny, mae'n rheidrwydd hefyd i adolygu'r dyraniad o unrhyw swyddi gwleidyddol rhwng y grwpiau.

1.3 Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar hyn o bryd fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Annibynnol | 18 |
| Llais Gwynedd | 12 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 5 |
| Llafur | 4 |
| **Cyfanswm** | **74** |

1.4 Oherwydd marwolaeth sydyn y cyn Gynghorydd Ernest Williams, ni chynhaliwyd etholiad yn Ward Bowydd a Rhiw ar 1 Mai, 2008. Cynhelir Is-etholiad ar Mehefin 5, 2008 ac adolygir cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor yn dilyn derbyn canlyniad yr is-etholiad.

## 2 DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 Nodir yma'r bedair brif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglyn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grwp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grwp gwleidyddol os yw nifer y

personau sy'n perthyn i'r grwp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grwp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grwp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grwp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd. (gweler Atodiad 'A').

**3.0 CYNORTHWYWYR GWLEIDYDDOL**

3.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 mae hefyd yn ofynnol adolygu dyraniad y cymorth gwleidyddol rhwng y grwpiau yn ôl cryfder y grwpiau sydd â hawl iddynt.

5.1 Atgoffir y Cyngor bod rhai cyfyngiadau ar y nifer o swyddi o'r fath; dim ond grwpiau sydd gyda 10% o seddau ar y cyngor sydd yn medru cael cymorth gwleidyddol ac mae cyfyngiad o dri i bob cyngor.

5.2 Yn achos y Cyngor hwn felly, dim ond grwpiau Plaid Cymru, Annibynnol a Llais Gwynedd sydd yn gymwys. O fewn y gyllideb sydd ar gael rhennir yr oriau rhwng y grwpiau yn ôl cryfder cymharol y grwpiau. Rhennir yr oriau ar sail cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor sydd ar hyn o bryd fel a nodir yn 1.3 uchod.

Rhennir yr oriau rhwng y grwpiau fel a ganlyn:-
Plaid Cymru 30 awr
Annibynnol 15 awr
Llais Gwynedd 10 awr

**4.0 CADEIRYDDIAETHAU PWYLLGORAU**

5.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdod Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod yn cael ei adlewyrchu gan y cadeiryddiaethau hynny.

5.2 Y drefn yn y Cyngor hwn yw dyrannu is-gadeiryddiaethau pwyllgor hefyd yn ôl cydbwysedd gwleidyddol ac i'r Grwp Busnes drafod y trefniadau ymlaen llaw.

Cyfarfu'r Grŵp Busnes ar 8 ac13 Mai, 2008 a chytunwyd i ddyrannu'r cadeiryddiaethau a'r is-gadeiryddiaethau fel a ganlyn:-

| | **Pwyllgorau** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor | Plaid Cymru | Plaid Cymru |
| 2 | Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | Annibynnol | Democratiaid Rhyddfrydol |
| 3 | Adnoddau a Chorfforaethol | | Plaid Cymru |
| 4 | Amgylchedd | Plaid Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| 5 | Plant a Phobl Ifanc | Plaid Cymru neu Llais Gwynedd | Annibynnol |
| 6 | Gofal | Plaid Cymru | Llais Gwynedd |
| 7 | Archwilio | Annibynnol | Plaid Cymru |
| 8 | Cwynion | Annibynnol | Plaid Cymru |
| 9 | Cynllunio Canolog | Plaid Cymru neu Llais Gwynedd | Annibynnol |
| 10 | Trwyddedu Canolog | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 11 | Pensiynau | Annibynnol | Llafur |
| 12 | Adnoddau Dynol | Plaid Cymru | Annibynnol |
| 13 | Apelau Cyflogaeth | | Plaid Cymru |
| 14 | Ardal Arfon | Llafur | Plaid Cymru |
| 15 | Ardal Dwyfor | Plaid Cymru neu Llais Gwynedd | Llais Gwynedd |
| 16 | Ardal Meirionnydd | | Plaid Cymru |

4.3 Ni lwyddwyd i ddod i gytundeb ar ba blaid fyddai'n dal cadeiryddiaethau tri o'r pwyllgorau, sef Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, Pwyllgor Cynllunio Canolog a Phwyllgor Ardal Dwyfor ac o'r herwydd mae tair cadair arall yn wag. Gofynnir i'r Cyngor Llawn benderfynu ar y cadeiryddiaethau hyn.

## 5 ENWEBIADAU I FWRDD Y CYNGOR

5.1 Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, y Cyngor ei hun sydd i wneud penodiadau i Fwrdd y Cyngor. Gan na fu amser digonol i'r grwpiau gwleidyddol gyfarfod i gyflwyno eu enwebiadau gofynnir i'r aelodau ddilyn y drefn arferol o benodi i bwyllgorau sef i ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i wneud y penodiadau yn unol ag enwebiadau'r grwpiau ar sail y cydbwysedd gwleidyddol a ddangosir yn Atodiad A.

## 6. CYRFF ALLANOL

6.1 Mae rhestr helaeth o gyrff allanol lle mae gan y Cyngor gynrychiolydd arnynt. Mae'r cyrff hyn yn amrywio'n fawr; mae rhai yn genedlaethol, rhai yn lleol eu naws, rhai yn

elusennau, rhai yn gwmniau ac yn y blaen. Enwebir rhai cynrychiolwyr gan Fwrdd y Cyngor a rhai gan y pwyllgorau ardal, yn enwedig y cyrff hynny yr ystyrrir yn lleol a bydd rhai yn cael eu henwebu gan yr Arweinydd Portffolio perthnasol.

5.1 Y Cyngor, serch hynny, sy'n penderfynu ar ddyraniadau'r seddau i gyrff sydd angen eu gwneud ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Mae dau o'r rhain, sef Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r cydbwysedd gwleidyddol i'r ddau gorff yma fel a ganlyn:-

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Awdurdod Tân | 3 | 1 | | | 1 |

## 7. GWEITHREDIAD

7.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

(a) fabwysiadu'r dyraniad a amlinellir yn Atodiad 'A'

(b) ddirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro i wneud penodiadau i Fwrdd y Cyngor a phwyllgorau eraill ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol

(c) fabwysiadu'r dyraniad cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol fel a nodwyd ym mharagraff 4.1 heblaw lle nad oes cytundeb.

(ch) benderfynu pa blaid fydd yn derbyn cadeiryddiaethau y pwyllgorau lle nad oes cytundeb.

(d) gadarnhau'r dyraniad o swyddi cynorthwywyr gwleidyddol.

(dd) gadarnhau oriau'r cynorthwywyr gwleidyddol fel a ganlyn:-

Plaid Cymru 30 o oriau
Annibynnol 15 o oriau
Llais Gwynedd 10 o oriau

(e) gadarnhau'r cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer y cyrff allanol a enwir ym mharagraff 6.2

**ATODIAD A**

## BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Datblygu (Prif Bwyllgor Craffu) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau a Chorfforaethol | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Amgylchedd | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Gofal | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

## PWYLLGORAU ERAILL

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur |
|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Cwynion | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Cynllunio Canolog | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Cyd-bwyllgor Lleol | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Cyd-bwyllgor AAA | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 1 | 1 | | 1 |
| Elusennau | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | |
| Trethi Annomestig | 3 | 1 | 1 | | |
| Tenantiaeth Gyflwyniadol | 2 | 1 | | | |

**MEETING** **COUNCIL**

| | |
|---|---|
| **DATE** | **22 MAY 2008** |
| **TITLE OF THE REPORT** | **POLITICAL BALANCE** |
| **PURPOSE OF THE REPORT** | **To Review the Political Balance of the Council.** |
| **REPORT BY** | **Head of Administration and Public Protection** |
| **ACTION** | **To Apportion Seats on the Council's Committees and to Confirm the Allocation of the Political Assistants' Posts and Hours.** |

---

## 1. BACKGROUND

.1 In accordance with the provisions of the Local Government and Housing Act 1989, the Council has to ensure that the constitution of its committees and sub-committees reflect the strength of the various political groups represented on the Council.

.2 The Council is expected to do this annually since it has to be carried out during the Council's annual meeting. At the same time, it is also necessary to review the apportionment of the political posts between the groups.

.3 The political balance of the Council is currently as follows:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 35 |
| Independent | 18 |
| Llais Gwynedd | 12 |
| Liberal Democrats | 5 |
| Labour | 4 |
| **Total** | **74** |

1.4 Due to the sudden passing away of former Councillor Ernest Williams the election in the Bowydd and Rhiw Ward was not held on 1st May, 2008. A bi-election will be held on 5 June, 2008 and following the result the political balance of the Council will be reviewed.

## 1. ALLOCATION OF SEATS ON COMMITTEES

2.1 The Local Government and Housing Act 1989 sets out four main rules on the allocation of seats:-

5.1 (a) Not all the seats on a committee may be allocated to the same political group;

(b) The majority of seats on the committee must be allocated to the political group where

the number of persons within the group forms a majority of Council members;

(c) subject to (a) and (b) above, the total number of seats on the ordinary committees allocated to each political group will equal that group's total number of seats on the Council;

(ch) subject to (a), (b) and (c) above, the number of seats on a committee allocated to each political group will be the same proportion of seats on the committee as the number of seats that members of that group hold on the Council.

5.2 In order to ensure that these rules are adhered to, the Council, in the past has dealt with committees in different blocks. This makes it easier to ensure that rule (c) in paragraph 2.2 above is adhered to.

## 6. POLITICAL ASSISTANTS

5.1 In accordance with the requirements of the Local Government (Committees and Political Groups) Regulations 1990 it is also necessary to review the allocation of political assistance between the groups according to the strength of the groups.

5.2 The Council is reminded that there are certain restrictions on the number of such posts, only groups with 10% of seats on the council are eligible and the number is restricted to three for each council.

5.3 In the case of this Council, therefore, only the Plaid Cymru, Independent and Llais Gwynedd groups qualify. In view of the available budget the hours are split between the groups according to the comparative strength of the groups. The hours have been divided on the basis that the political balance of the Council is as noted in 1.3 above.

The hours are split between the groups as follows:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 30 hours |
| Independent | 15 hours |
| Llais Gwynedd | 10 hours. |

## 6. COMMITTEE CHAIRPERSONSHIPS

6.1 In accordance with the requirements of the Local Authority (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2007 it is necessary to apportion committee chairpersonships, in order to ensure, as far as it is practicable, that the political balance of the authority is reflected by those said chairpersonships.

4.2 The arrangement within this Council is to apportion the vice-chairpersonships also according to the political balance and to ask the Business Group to discuss the arrangements beforehand.
The Business Group met on 8 and 13 May, 2008 and agreed to allocate the chairpersonships and vice-chairpersonships as follows:-

| | Committee | Chairperson | Vice-chairperson |
|---|---|---|---|
| 1 | Council Board | Plaid Cymru | Plaid Cymru |
| 2 | Development (Principal Scrutiny Committee) | Independent | Liberal Democrats |
| 3 | Resources and Corporate Policy | | Plaid Cymru |
| 4 | Environment | Plaid Cymru | Liberal Democrats |
| 5 | Children and Young People | Plaid Cymru or Llais Gwynedd | Independent |
| 6 | Care | Plaid Cymru | Llais Gwynedd |
| 7 | Audit | Independent | Plaid Cymru |
| 8 | Complaints | Independent | Plaid Cymru |
| 9 | Central Planning | Plaid Cymru or Llais Gwynedd | Independent |
| 10 | Central Licensing | Plaid Cymru | Independent |
| 11 | Pensions | Independent | Labour |
| 12 | Human Resources | Plaid Cymru | Independent |
| 13 | Employment Appeals | | Plaid Cymru |
| 14 | Arfon Area | Labour | Plaid Cymru |
| 15 | Dwyfor Area | Plaid Cymru or Llais Gwynedd | Llais Gwynedd |
| 16 | Meirionnydd Area | | Plaid Cymru |

4.3 Agreement was not reached on which party would hold the chairpersonships of three of the committees, namely Children and Young Persons Scrutiny Committee, Central Planning Committee and Dwyfor Area Committee and therefore three other chairs are vacant. The Full Council is requested to decide on these chairpersonships.

## 5. NOMINATIONS TO THE COUNCIL BOARD

5.1 According to the Council Constitution, the Council itself nominates members to the Council Board. As there was insufficient time for the political groups to meet to present their nominations it is requested that the members follow the usual course for electing to committees namely to delegate the right to the Monitoring Officer to elect members in accordance with the nominations of the groups on the basis of political balance as shown in Appendix A.

## 6. EXTERNAL BODIES

6.1 There is a very long list of external bodies on which the Council has representatives. These bodies vary greatly, some are national, local, charitable, companies etc. Certain representatives are appointed by the Council Board and some by the area committees, in

particular those bodies which are considered local and some will be nominated by the relevant Portfolio Leader.

6.2 The Council nevertheless, is responsible for deciding the apportionment of the seats on the bodies on the basis of political balance. There are two of these, namely Snowdonia National Park Authority and North Wales Fire and Rescue Authority and the Council is asked to approve the political balance for these two bodies as follows:-

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Snowdonia National Park Authority | 5 | 2 | 1 | 1 | |
| North Wales Fire and Rescue Authority | 3 | 1 | | | 1 |

**5. ACTION**

5.1 The Council are requested:-

(a) to adopt the allocation outlined in Appendix A.

(b) to delegate power to the Monitoring Officer to appoint to the Council Board and other committees on the basis of political balance and in accordance with the wishes of the political groups.

(c) to adopt the allocation of chairpersonships and vice-chairpersonships of committees on the basis of political balance as noted in paragraph 4.1 apart from where there is no agreement.

(ch) decide which group will be allocated the chairpersonships of the committees where there is no agreement

(ch) confirm the allocation of political assistants posts.

(d) confirm the political assistants' hours as follows:-

Plaid Cymru 30 hours
Independent 15 hours
Llais Gwynedd 10 hours.

(dd) to confirm the political balance with regard to the external bodies named in paragraph 6.2

**APPENDIX A**

**COUNCIL BOARD AND PRINCIPAL SCRUTINY COMMITTEE**

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Council Board | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Development (Principal Scrutiny Committee) | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |

**OTHER SCRUTINY COMMITTEES**

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Resources and Corporate Policy | 7 | 4 | 3 | 1 | |
| Environment | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |
| Children and Young People | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Care | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 |

**OTHER COMMITTEES**

| | Plaid Cymru | Independent | Llais Gwynedd | Liberal Democrats | Labour |
|---|---|---|---|---|---|
| Audit | 7 | 4 | 3 | | 1 |
| Complaints | 4 | 2 | 1 | | |
| Pensions | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Central Planning | 5 | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Central Licensing | 5 | 3 | 2 | 1 | |
| Local Joint Committee | 5 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Special Education Joint Committee | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| SACRE | 3 | 2 | 1 | 1 | |
| Human Resources | 6 | 2 | 2 | 1 | |
| Employment Appeals | 4 | 1 | 1 | | 1 |
| Charities | 4 | 2 | 2 | 1 | |
| Language | 3 | 2 | 2 | | |
| Non Domestic Taxes | 3 | 1 | 1 | | |
| Introductory Tenancy | 2 | 1 | | | |